



Telerau ac Amodau Ras Siôn Corn Rithwir yr Wyddgrug

Cofrestru

Rhaid i gyfranogwyr gyflwyno ffurflen gofrestru swyddogol ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn Ras Siôn Corn rithwir yr Wyddgrug, gan gynnwys y rhai dan 12 oed sy'n cymryd rhan.

Mae croeso i bob oed gyfranogi yn Ras Siôn Corn yr Wyddgrug ond rhaid i rai dan 16 fod yng nghwmni oedolyn.

Mae gofyn i gyfranogwyr dros 12 oed dalu rhodd leiaf o £5 yr un a chael Gwisg Siôn Corn oedolyn / un maint yn unig yn gyfnewid.

Caiff plant dan 12 oed gynnig yn ddi-dâl ond efallai y byddwch eisiau prynu gwisg oedolyn iddynt allu gwisgo siaced het a barf Siôn Corn yn unig, eto am rodd leiaf o £5 y wisg.

Bydd holl gyfranogwyr yn derbyn medal, rhif ras a thystysgrif.

Casglu / Dosbarthu gwisgoedd a medalau Siôn Corn.

Fe all cyfranogwyr gasglu eu gwisgoedd o Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug CH7 1AB ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn rhwng 10am a 2pm. Fel arall, fe all cynigwyr sy'n byw yn yr Wyddgrug neu o fewn 2 filltir ofyn i'r wisg gael ei hanfon, y mae modd ei drefnu'n ddigswllt.

Diogelwch

COVID-19: Rhaid i gyfranogwyr sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a chadw pellter cymdeithasol diogel. <https://llyw.cymru/coronafeirws>

Mae cyfranogwyr yn achlysuron rhithwir Cyngor Tref yr Wyddgrug yn gwneud hynny ar eu cyfrifoldeb eu hunain yn llwyr ac yn gyfrifol 100% am ddewis llwybr diogel i gerdded neu redeg.

Mae Ras Siôn Corn Rithwir yr Wyddgrug yn golygu gweithgarwch corfforol cyson. Cyfranogwyr sy'n penderfynu cymryd rhan a rhaid iddynt fod yn fodlon bod y gweithgarwch hwn yn addas iddynt fel unigolion. Ni all Cyngor Tref yr Wyddgrug fod yn atebol am waethygu salwch neu anaf oherwydd cymryd rhan yn y gweithgarwch hwn.

Rydym yn cynghori'n gryf bod holl gyfranogwyr yn gwisgo esgidiau a dillad priodol i sicrhau cyfranogi'n ddiogel a phleserus.

Os ydych yn cymryd rhan ar eich pen eich hun, cofiwch hysbysu eich perthynas agosaf a pheidio ag anghofio mynd â ffôn poced wedi'i wefru'n llawn.

Ar ôl gorffen Ras Siôn Corn

Ar ôl gorffen eich ras rithwir, cyflwynwch ffotograff neu fideo ohonoch eich hun / grŵp yn cymryd rhan i'w ddefnyddio ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Tref yr Wyddgrug a thudalennau eraill yn ymwneud â'r Wyddgrug. Fe all delweddau / fideo gael eu defnyddio hefyd yn y wasg leol, ar wefan y dref a / neu defnyddiodd i hyrwyddo achlysuron y dyfodol / Tref yr Wyddgrug.

Os yw ffotograffau'n cynnwys plant dan 16, cofiwch gael caniatâd y rhieni i ddefnyddio'r ffotograffau fel y gwêl Cyngor Tref yr Wyddgrug yn dda i hyrwyddo'r achlysur a / neu Gyngor Tref yr Wyddgrug a / neu Dref yr Wyddgrug, er enghraifft ar gyfryngau cymdeithasol, yn y wasg leol, ar wefan y dref, i hyrwyddo achlysuron y dyfodol.

Anfonwch eich ffotograffau / fideo naill ai i tudalen Weplyfr Cyngor Tref yr Wyddgrug neu drwy e-bost i events@moldtowncouncil.org.uk

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cadw'r hawl i ddiweddarau ei delerau ac amodau mewn cysylltiad â Ras Siôn Corn ar unrhyw adeg cyn yr achlysur.

Rhybudd Diogelu Data ar gyfer Ras Siôn Corn Rithwir yr Wyddgrug

Cyngor Tref yr Wyddgrug yw'r Rheolwr Data dan gyfraith newydd diogelu data a bydd yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon i reoli Ras Siôn Corn Rithwir yr Wyddgrug.

Sail gyfreithiol prosesu'r data hyn yw eich caniatâd i wneud hynny. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg trwy ein hysbysu. Ein manylion cysylltu ar gyfer gwneud hynny, neu i wneud unrhyw ymholiadau eraill, yw Cyngor Tref yr Wyddgrug, Llawr 1af, Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AB. Byddwn yn cadw eich data am flwyddyn yn dilyn Ras Siôn Corn Rithwir yr Wyddgrug oni bai eich bod yn cadarnhau y dymunwch i ni gysylltu â chi ynghylch achlysuron yr Wyddgrug yn y dyfodol, gan gynnwys Ras Siôn Corn. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag unrhyw sefydliad neu unigolion eraill.

Cadarnhewch eich caniatâd isod. Gallwch gydsynio ag unrhyw un neu bob un o'r dibenion ar y rhestr. Gallwch dynnu'n ôl neu newid eich caniatâd ar unrhyw adeg trwy gysylltu â Swyddfa'r Cyngor.

- Gallwn gysylltu â chi i ddweud wrthyhych beth sy'n digwydd yn ardal Cyngor Tref yr Wyddgrug gan gynnwys newyddion, achlysuron, cyfarfodydd a gweithgareddau. Fe all y negeseuon hyn ymddangos weithiau hefyd ar ein gwefan, neu ar ffurf argraffedig neu electronig gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan unigolion nifer o hawliau dan gyfraith diogelu data, gan gynnwys hawl i ofyn am eu gwybodaeth. Mae gennych hawl hefyd i gwyno ynghylch sut ydym yn trin eich data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth <https://ico.org.uk/>

Bydd gwybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio'n unig i'r diben dywededig. Mae rhagor o wybodaeth am brosesu eich data i'w chael ar ein gwefan yn <http://www.moldtowncouncil.org.uk/Mold-land/Default.aspx>

Gallwch gysylltu â Paul Russell, Swyddog Diogelu Data Cyngor y Dref, drwy'r post yn 2 Ffordd yr Eglwys, Trefyclo, Powys LD7 1EB, trwy e-bost yn paul@micrshadevsm.co.uk, neu dros y ffôn ar 07772 657446.